

“GWELLIANT I 8.2:

Mae'r Cyngor yn nodi bod amrywiolyn Delta o SARS-CoV-2 yn heintio plant a phobl ifanc ar gyfradd ddigynsail.

Gan ei fod yn feirws sy'n cael ei drosglwyddo yn yr aer, mae awyru ac aer glân yn allweddol yn y frwydr yn erbyn SARS-CoV-2, fel y cydnabyddir yn y *Joint Union Guide to Improving Ventilation in Schools and Colleges* (Medi 2021) a strategaeth Llywodraeth Cymru i ddarparu offer monitro CO2. Fodd bynnag, nid yw offer monitro yn ateb y broblem o ran awyru gwael: yn syml maent yn nodi bod problem ac y dylid cymryd camau adferol.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y bydd Grŵp Cyngori Technegol Llywodraeth Cymru yn awr yn ystyried canlyniadau treialon cynnar y peiriannau hyn ac yn rhoi cyngor pellach ar eu defnydd mewn lleoliadau addysg cyn i unrhyw broses gaffael ddechrau. Nodwn hefyd gyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mai'r offer mwyaf addas i'w ddefnyddio mewn ystafelloedd ag awyru gwael yw:

- Hidlenni Aer Gronynnol Effeithlon Iawn (HEPA) sy'n 99.97% effeithlon o ran dal gronnau feirysol a gynhyrchir gan bobl sy'n gysylltiedig â SARS-CoV-2 (*Centres for Disease Control and Prevention; Ventilation in Buildings*; diweddarwyd 2 Mehefin 2021 a:
- Dyfeisiau uwchfioled.

Felly, mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried ar frys asesu'r posibilrwydd o ddefnyddio unedau UV-C a/neu unedau HEPA, fel yr argymhellwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a sydd wedi'u dilysu fel rhai priodol a diogel i'w defnyddio gan Sefydliad Iechyd y Byd, y Lancet ac awdurdodau meddygol a chyhoeddiadau blaenllaw eraill, gan nodi ar yr un pryd bod angen cynnal gwaith i ddiogelu ein stoc helaeth o ysgolion a diogelu ysgolion sydd eisoes dan bwysau rhag pwysau ariannol nad oedd modd ei ragweld,"

Cynnig: Y Cyngorydd Rob James

Eiliwyd: Y Cyngorydd Dot Jones